# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Hydref 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## Ethol Cadeirydd dros dro

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 5)

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20: Sesiwn dystiolaeth

(09.00-10.00) (Tudalennau 6 - 74)

Suzy Davies AC, Comisiynydd ar gyfer y Gyllideb a Llywodraethu

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid

Papur 1 - Cyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019-20

## 4 Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(10.00-11.00) (Tudalennau 75 - 90)

Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio

Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru

Huw Charles, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru

Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

Memorandwm esboniadol

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: Sesiwn dystiolaeth 1 (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid)

(11.00-12.00) (Tudalennau 91 - 95)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru

Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol

Ymatebion i'r ymgynghoriad

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.00)

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: Trafod y dystiolaeth

(12.00-12.10)

## 8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20: Trafod y dystiolaeth

(12.10-12.20)

## 9 Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(12.20-12.30)

## 10 Gwasanaethau Archwilio Allanol i Swyddfa Archwilio Cymru

(12:30-12:40) (Tudalennau 96 - 100)

Laurie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Busnes, Swyddfa Archwilio Cymru

Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 2 - Gwasanaethau Archwilio Allanol i Swyddfa Archwilio Cymru

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Medi 2018

Amser: 09.02 - 10.39

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5129

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC<br>Llyr Gruffydd AC |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Agorodd y Clerc y cyfarfod a galwodd am enwebiadau i ethol cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn ac ar gyfer y cyfarfod ar 27 Medi 2018.

1.2 Enwebwyd Llyr Gruffydd gan David Rees, ac fe'i hetholwyd yn gadeirydd dros dro.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd dros dro yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC. Roedd Llyr Gruffydd yn bresennol ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol - 26 Gorffennaf 2018

### 2.2 PTN2 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid - Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19 - 10 Awst 2018

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 27 Medi 2018

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i gymeradwyo unrhyw newidiadau pellach drwy e-bost.

## 5 Trafod Offeryn Statudol Treth

5.1 Nododd y Pwyllgor yr offeryn statudol a gofynnwyd am ddiffiniad cyfreithiol o 'top-soil'.

## 6 Mentrau Senedd@

6.1 Nododd y Pwyllgor y mentrau Senedd@ arfaethedig.

## 7 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunwyd i ystyried y fersiwn ddiwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 8 Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o graffu ar y gyllideb ddrafft a'r amserlen ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar asesiadau effaith yn y gyllideb.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 27 Medi 2018

Amser: 09.10 - 12.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5137

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Helen Mary Jones AC |
| Tystion: | Andy Fraser, Llywodraeth Cymru<br>Julian Revell, Llywodraeth Cymru<br>Katharine Pottinger, CThEM<br>Jackie McGeehan, CThEM<br>David Eiser, Cynghorydd i Bwyllgor Cyllid Senedd yr Alban |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Yn dilyn etholiad ar 19 Medi 2018, croesawodd Llyr Gruffydd AC, fel Cadeirydd dros dro, yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC. Roedd Llyr Gruffydd AC yn bresennol ar ei ran.

1.3 Mynychodd Helen Mary Jones AC y cyfarfod gyda chaniatâd y Cadeirydd dros dro, yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

1.4 Croesawodd y Cadeirydd dros dro Dr Ed Poole fel Ymgynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor yn ystod ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

## 2 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: trafod yr adroddiad drafft

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft gyda rhai mân newidiadau.

## 3 Cyfradd Treth Incwm Cymru: Brîff Technegol

3.1 Cafodd y Pwyllgor frîff technegol ar Gyfradd Treth Incwm Cymru gan:

- Katharine Pottinger, Pennaeth Treth Incwm Datganoledig, CThEM;
- Jackie McGeehan, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Treth Incwm, CThEM;
- Andy Fraser, Pennaeth y Strategaeth Dreth, Trysorlys Cymru;
- Julian Revell, Pennaeth Dadansoddiad Cyllidol, Trysorlys Cymru.

## 4 Sesiwn friffio: David Eiser

4.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar oblygiadau datganoli treth incwm yn rhannol i graffu ar y gyllideb gan David Eiser, Ymgynghorydd i Bwyllgor Cyllid Senedd yr Alban a Chymrawd y Ganolfan ar Newid Cyfansoddiadol.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: trafod y briffiau

5.1 Trafododd y Pwyllgor y briffiau.

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)21-18 P1

Eitem 3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Cyllideb Ddrafft:** 2019-20

Medi 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Cyllideb Ddrafft:** 2019-20

Medi 2018



www.cynulliad.cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** .......... 7

**2. Dull y Gyllideb 2019-20** .......... 12

**3. Yr heriau o'n blaenau** .......... 18

**4. Cefnogi'r Cynulliad** .......... 22

**5. Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol** .......... 30

**6. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau** .......... 32

**7. Cwmpas y Gyllideb** .......... 34

**Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb** .......... 36

**Atodiad 2: Manylion y Gyllideb** .......... 38

**Atodiad 3: Prosiectau Blaenoriaeth** .......... 41

**Atodiad 4: Geirfa** .......... 42



# 1. Cyflwyniad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Cynulliad i dalu am gostau rhedeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chostau Cyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad fel y pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Ei swyddogaeth yw darparu'r staff, eiddo a gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae gan Aelodau'r Cynulliad gryn gyfrifoldeb a braint yn eu rôl o gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Rôl Comisiwn y Cynulliad yw darparu staff a gwasanaethau cymorth arbenigol o safon uchel i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad wedi'u paratoi'n iawn i wneud eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli ac i fodloni disgwyliadau pobl Cymru.

Nodau strategol y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad yw:

- darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad;
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Dyma ein blaenoriaethau cyfredol i gyflawni strategaeth y Comisiwn

| **Cymorth seneddol o’r radd flaenaf** | **Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo’r Cynulliad** | **Defnyddio adnoddau’n ddoeth** |
|---|---|---|
| ▪ Arloesi a theilwra ein gwasanaethau er mwyn rhoi’r cymorth gorau i’r Aelodau, gan fanteisio ar dechnoleg<br>▪ – Galluogi ymateb sefydliadol cryf i newid cyfansoddiadol a chanlyniad refferendwm yr UE<br>▪ Darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol | ▪ Ymgysylltu’n strategol i gael effaith ar fusnes y Cynulliad drwy bobl sy’n ymweld â’n hystâd, ledled Cymru ac ar-lein<br>▪ Ymrwymo’n gryf i bobl ifanc Cymru<br>▪ Sicrhau ei bod yn hawdd canfod, defnyddio a rhannu gwybodaeth ddibynadwy mewn byd Digidol<br>▪ Rhannu’r hyn yr ydym wedi’i ddysgu â Chymru a thu hwnt | ▪ Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn barhaus a mesur y gwelliant ac adrodd arno<br>▪ Bod yn gwbl dryloyw ac yn atebol o ran rheoli ein cyllideb<br>▪ Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd<br>▪ Meithrin ein gallu o ran Pobl<br>▪ Integreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses benderfynu, a’r broses o lunio a chyflenwi gwasanaethau. |

Mae'r gyllideb hon yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn yng nghyd-destun Pumed Cynulliad sy'n wynebu newidiadau cyfansoddiadol sylweddol a pharhaus, gyda'r Deyrnas Unedig yn debygol o adael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019.

Yn y ddogfen gyllideb hon, nodwn y cynnydd yr ydym wedi'i wneud a'r mannau y mae angen canolbwyntio mwy arnynt dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae ffigurau dangosol ar gyfer 2021-22, sef blwyddyn gyntaf y Chweched Cynulliad, wedi'u cynnwys hefyd.

Y llynedd, awgrymodd y Pwyllgor Cyllid y byddai'n disgwyl i gyllidebau'r Comisiwn gynyddu gan ddim mwy na'r newid cyfatebol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Mae ein cynigion cyllidebol yn adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

Yn anochel, mae'n rhaid inni wneud dewisiadau anodd er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau yn wyneb heriau ariannol sylweddol parhaus ar draws cyllidebau'r sector cyhoeddus. I sicrhau y caiff yr adnoddau eu defnyddio mewn meysydd blaenoriaeth, mae ein strategaeth gyllideb a chynlluniau corfforaethol yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer newid, arloesedd a buddsoddiad dros weddill cyfnod y Cynulliad hwn. Maent wedi'u hadlewyrchu yn y cynigion cyllideb hyn.

Mae gennym fframweithiau cadarn ar waith ar gyfer cynllunio gwasanaethau ac adnoddau, adrodd ar berfformiad a sicrhau gwerth am arian. Mae Bwrdd Gweithredol newydd, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn sicrhau y caiff ein strategaeth gyllideb a chynlluniau corfforaethol eu rheoli, eu cynllunio a'u harolygu'n gadarn. Mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn goruchwylio gweithgareddau pennu adnoddau a blaenoriaethu.

Mae'r gyllideb hon ar gyfer 2019-20 yn nodi cyfanswm gofynion adnoddau'r Comisiwn ar gyfer £57.023 miliwn. Bydd y gyllideb:

- yn ein galluogi i ddarparu'r adnoddau priodol ar gyfer gwasanaethau ac i fuddsoddi mewn gwaith datblygu angenrheidiol;
- yn dangos ein hymrwymiad i wella eglurder a thryloywder ein cynlluniau buddsoddi a'n trefniadau llywodraethu.

## Comisiynwyr y Cynulliad



**Elin Jones AC (Plaid Cymru)**
Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad ac mae'n gyfrifol hefyd, fel Comisiynydd, am gyfathrebu ac ymgysylltu.



**Suzy Davies AC (Ceidwadwyr Cymreig)**
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Joyce Watson AC (Llafur Cymru)**
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, a'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.

**Comisiynydd (UKIP)**
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ac adnoddau'r Cynulliad..



**Adam Price AC (Plaid Cymru)**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.



# 2. Dull y Gyllideb 2019-20

Mae dull y gyllideb ar gyfer 2019-20 wedi gwneud darpariaeth ar gyfer costau y gellir eu rhagweld gyda pheth sicrwydd, tra'n cynnwys gwydnwch. Mae hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n wynebu'r Comisiwn dros y flwyddyn ariannol nesaf, o ran yr effaith sy'n dod i'r amlwg yn sgil Brexit, pwerau newydd y Cynulliad a'r newid cyfansoddiadol ehangach yng Nghymru a'r DU.

## Cwmpas y Gyllideb

Er gwaethaf pwysau cynyddol ar adnoddau dros dair blynedd gyntaf y Cynulliad hwn, mae cyllideb weithredol 2019-20 yn parhau yr un fath â'r hyn a nodwyd yn flaenorol yn nogfen gyllideb 2018-19. Mae'n £36.076 miliwn, sy'n gynnydd o 1.66% ar gyllideb weithredol 2018-19.

Gwnaeth adroddiad Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2017 ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 y Comisiwn yr argymhellion a ganlyn:

> bod y Pwyllgor yn argymell, ar gyfer yr hyn sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, na ddylai cyllideb y Comisiwn fod yn fwy nag unrhyw newidiadau i Grant Bloc Cymru.[1]

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y cynnydd disgwyliedig i Grant Bloc Cymru yn debygol o fod tua 1.67%. Mae'r cynnydd o 1.66% yng nghyllideb weithredol y Comisiwn ar gyfer 2019-20 o fewn y cynnydd o 1.67% a ddisgwyliwyd i Grant Bloc Cymru yn 2019-20.[2]

Mae cyllideb gyffredinol y Comisiwn, gan gynnwys costau cysylltiedig Aelodau a chronfa prosiect newydd, wedi cynyddu yn unol â'r cynnydd disgwyliedig i Grant Bloc Cymru ac yn dangos cynnydd o 1.67%.

---

[1] Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19 (tud 9)
**http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11245/cr-ld11245-w.pdf**

[2] https://www.parliament.uk/documents/commons-committees/welsh-affairs/Wales-Office-Main-Estimates-Memorandum-2018-19.pdf - Adran 8 - “Welsh Government DEL”.

Roedd dogfen gyllideb 2018-19 yn cynnwys rhagamcaniad o'r gofyniad cyllideb tebygol ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad. Mae'r ddogfen hon yn rhagamcanu hyd at 2021-22, sef blwyddyn gyntaf y Chweched Cynulliad. Defnyddiwyd cynnydd chwyddiant o 1.66%[3] a 1.74% i amcangyfrif y cyllidebau gweithredol ar gyfer 2020-21 a 2021-22, yn y drefn honno. Cyllidebau dangosol yw'r rhain, ac o ystyried cyfradd y newid a'r heriau a wynebir gan y Cynulliad, mae'n debygol y bydd angen adolygu'r rhagolygon hyn mewn dogfennau cyllideb yn y dyfodol. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i naill ai faint neu gylch gwaith y Cynulliad yn cael eu costio'n llawn a byddent yn debygol o fod angen strategaeth cyllideb gwbl newydd.

Mae'r Comisiwn wedi cymryd safbwynt darbodus o'r cyllid sydd ei angen, gan fod yn ystyriol o sefyllfa'r sector cyhoeddus ehangach.

Mae cyllideb 2019-20 yn darparu ar gyfer y canlynol:

- gwariant o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn (y gyllideb weithredol);
- cronfa prosiect;
- dibrisiant;
- y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Cyflog a Lwfansau Aelodau; ac
- y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiynau Aelodau o dan bennawd gwariant a reolir yn flynyddol (AME) Trysorlys EM.

[3] **https://www.gov.uk/government/statistics/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp-june-2018-quarterly-national-accounts?utm_source=683cbb2d-0795-4f7e-9933-96daf0212871&utm_medium=email&utm_campaign=govuk-notifications&utm_content=weekly**

## Cronfa prosiect

Mae Atodiad 3 yn nodi manylion ar gyfer prosiectau blaenoriaeth y Comisiwn ar gyfer 2019-20. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn monitro ac yn rheoli arian sydd ar gael i sicrhau bod unrhyw waith a wneir yn gyson â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn ac yn darparu gwerth am arian.

Roedd dogfen gyllideb 2018-19 yn nodi bod prosiectau blaenoriaeth yn cael eu hariannu o dair ffynhonnell:

- Y gyllideb cyfalaf;
- Tanwariant yn erbyn llinellau cyllideb gweithredol;
- Tanwariant yn erbyn llinellau cyllideb y Penderfyniad.

Roedd ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Cyllid i gadarnhau sut y mae seneddau eraill, yn y DU ac yn ehangach, yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â thaliadau a lwfansau Aelodau, yn argymell y canlynol:

> Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn adolygu ei ddull o ariannu prosiectau cyfalaf, gan sicrhau y caiff arian ei glustnodi ar gyfer prosiectau craidd o fewn ei gyllideb gyfalaf. [4]

a chyfeiriodd hefyd at argymhelliad cynharach y pwyllgor:

> Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am dryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer tanwariant a ragwelir…mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried o ddifrif sut yr eir ati i benderfynu ynghylch y gyllideb.[5]

[4]Defnydd Comisiwn y Cynulliad o danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau (tud 12)
**http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11528/cr-ld11528-w.pdf**
[5] Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19 (tud 9)
**http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11245/cr-ld11245-w.pdf**

Yn hanesyddol, mae'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau wedi cyflwyno tanwariant sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio gan y Comisiwn i ariannu prosiectau penodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion ac i gynyddu tryloywder, mae cyllideb 2019-20 yn cynnwys y canlynol:

- ni fydd unrhyw danwariant yn erbyn llinell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn 2019-20 yn dod o Gronfa Gyfunol Cymru a bydd ar gael i'w gario ymlaen yng Nghronfa wrth Gefn Cymru.

- mae llinell gronfa prosiect newydd wedi'i hychwanegu, yn ychwanegol at gyllideb weithredol y Comisiwn. Mae hyn yn disodli'r gronfa fuddsoddi flaenorol a ariannwyd o danwariant yn y Penderfyniad a thanwariant gweithredol.

Mae'r newidiadau hyn yn mynd i'r afael ag argymhellion Pwyllgor Cyllid drwy sicrhau bod tryloywder ychwanegol a bod cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer cyfalaf y Comisiwn a phrosiectau blaenoriaeth mawr eraill.

## Sefydlu Capasiti a Staffio

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol iawn o'r cyfyngiad parhaus ynghylch cyllid y sector cyhoeddus ac wedi ymateb i hynny, gan gynnwys ymrwymiad i reoli ei adnoddau staffio yn gadarn i ddiwallu anghenion y Cynulliad, o fewn y 491 o swyddi penodedig y sefydliad, tan yr etholiad nesaf.

Drwy broses adolygu, cafodd chwe swydd wag eu hailddyrannu er mwyn diwallu'r anghenion blaenoriaeth ynghylch Brexit a Diwygio Trefniadau'r Cynulliad.

Nododd yr Adolygiad Capasiti nifer o wasanaethau, swyddogaethau a phrosesau ar gyfer adolygiad effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan gynnwys cymorth i bwyllgorau a chyfathrebu. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo, ac mae'r Bwrdd Gweithredol wrthi'n cynllunio adolygiadau pellach dros y 12 mis nesaf.

Mewn nifer o wasanaethau, rydym wedi achub ar y cyfle i rannu cyfrifoldebau rhwng gwasanaethau wrth i swyddi wag godi, ac mae'r dull hwn wedi cyfrannu at y chwe swydd wag y sonnir amdanynt uchod.

Nid oes unrhyw sefydliad yn sefyll yn ei unfan o ran ei angen am sgiliau a phrofiad penodol, ac yn yr un modd, mae anghenion newidiol y Cynulliad yn golygu na ellir defnyddio sgiliau rhai staff mwyach i gyflawni blaenoriaethau newydd. Er mwyn helpu i reoli'r newid hwn mewn anghenion adnoddau, rydym wedi cynnig Cynllun Gadael Gwirfoddol (VES) i staff yn y gorffennol. Y fantais o gynnig VES yw ei fod yn

galluogi'r Comisiwn i ddefnyddio'r capasiti a ryddhawyd er mwyn darparu'r anghenion blaenoriaeth uchaf ac i addasu'r cymysgedd sgiliau fel ei fod yn cyd-fynd â heriau presennol a rhai sydd wedi'u nodi ar gyfer y dyfodol. Byddai unrhyw VES yn amodol ar feini prawf cadarn ar gyfer targedu a dethol a hefyd i reoli costau. Gan ein bod yn gwybod y byddwn yn wynebu galwadau ychwanegol am adnoddau i fynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth fydd yn deillio o Brexit a Diwygio Trefniadau'r Cynulliad, o fewn terfyn y sefydliad, rydym yn ystyried o ddifri cynnig VES yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2018-19. Gellid ariannu'r VES drwy arbedion busnes gweithredol o gyllidebau staff 2018-19 a 2019-20.

## Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 - Prydlesi

Un newid i'r rheolau cyfrifyddu yn y dyfodol fydd ei gwneud yn ofynnol i brydlesi gweithredu gael eu cydnabod fel asedau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ac yn destun dibrisio, er mwyn cynyddu tryloywder o ran rhwymedigaethau ymrwymedig y sefydliad. Mae'n debyg y bydd y newid yn weithredol o ddechrau blwyddyn ariannol 2019-20.

Nid yw'r ddogfen gyllideb hon yn adlewyrchu effaith y newid hwn. Unwaith y bydd Trysorlys EM wedi adolygu a chyhoeddi ei gasgliadau, yn dilyn ei ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018, byddwn yn adolygu ei Lawlyfr Adrodd Ariannol ar gyfer 2019-20. Bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018. Bydd y Comisiwn yn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i gyllideb 2019-20 drwy gyllideb Atodol i'w gosod ym mis Mehefin 2019.

Bydd unrhyw newidiadau yn effeithio ar gyflwyniad y gyllideb ond ni fydd yn newid y gofyniad arian parod gan Gronfa Gyfunol Cymru fel y nodir yn Nhabl 3.

## Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wrthi'n cynnal prisiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Bydd canlyniadau'r prisiad yn pennu cyfraniadau'r cyflogwr y bydd y Comisiwn yn ei dalu i'r cynllun o 1 Ebrill 2019.

Mae'n bosibl y gallai cyfraniadau'r Comisiwn gynyddu o 21% ar gyfartaledd i 28% ar gyfartaledd. Gallai'r cynnydd hwn olygu y bydd yn rhaid i'r Comisiwn dalu cyfraniadau ychwanegol o tua £1.1 miliwn. Nid yw'r cynnydd hwn wedi'i adlewyrchu yn y ffigurau a geir yn y ddogfen gyllideb hon.

Bydd y Comisiwn yn adolygu goblygiadau y cynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr unwaith y byddant wedi'u cadarnhau. Os na ellir cynnwys y cynnydd hwn yng nghyllideb 2019-20, bydd cyllideb atodol yn cael ei hystyried yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20.

## Caffael

Mae'r Comisiwn wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer cynyddu cyfleoedd contractau i gyflenwyr yng Nghymru. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy ddangosydd perfformiad allweddol corfforaethol newydd a bennir ar 43% o wariant cyflenwyr i fod â chwmnïau o Gymru erbyn diwedd y Cynulliad hwn. Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol gynllun gweithredu ym mis Medi 2018, sy'n amlinellu cyfres o gamau gweithredu sydd wedi'u hanelu at annog cyflenwyr o Gymru i ryngweithio â'r Comisiwn a gwneud cais am waith.

# 3. Yr heriau o'n blaenau

## Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn wynebu cyfleoedd a heriau heb eu tebyg yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

### Gadael yr UE a newid cyfansoddiadol

Mae'r Comisiwn yn benderfynol o sicrhau bod y Cynulliad yn barod i chwarae ei ran ym mhroses Brexit.  Mae hyn yn golygu sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau yn y DU, gyda'r Undeb Ewropeaidd a chyda phartneriaid masnachu rhyngwladol, a bod yn barod i graffu ar nifer sylweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth gymhleth ym Mae Caerdydd a San Steffan.

Mae craffu ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â Brexit yn debygol o roi pwysau sylweddol ar Aelodau a staff. Gallai ddylanwadu ar weithdrefnau presennol y Cynulliad ac, o ganlyniad, eu profi. Gallai hefyd olygu newid mawr yn ffocws gwaith Aelodau tuag at graffu ar is-ddeddfwriaeth, Biliau San Steffan, Biliau Cynulliad posibl, a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae gan y Pwyllgor Busnes rôl bwysig o ran cynnal goruchwyliaeth o'r effaith ar fusnes y Cynulliad, tra bod Fforwm y Cadeiryddion yn trafod gadael yr UE fel eitem sefydlog ar yr agenda yn ei gyfarfodydd tymhorol, gan gynnwys capasiti'r Cynulliad i ymgysylltu'n effeithiol. Bydd y Comisiwn yn parhau i fonitro datblygiadau i asesu unrhyw ofynion sy'n codi o ran adnoddau.

Mae'r rhaglen hon o ddeddfwriaeth yn ymwneud â gadael yr UE yn digwydd yn erbyn cefndir unigryw o newid cyfansoddiadol sylweddol yng Nghymru. Drwy ddatganoli pwerau i'r Cynulliad a symud tuag at fodel cadw pwerau, rhoddir sail gyfansoddiadol newydd i'r Cynulliad. Mae cefnogi Aelodau i ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau newydd, rhoi cyngor ar gymhwysedd deddfwriaethol o dan y setliad newydd a chynnal gwaith dadansoddi cyllidol mwy soffistigedig i gyd yn heriau newydd i swyddogion y Comisiwn.

### Diwygio trefniadau'r Cynulliad

Mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad fynd i'r afael â rhai materion cyfansoddiadol o bwys. Mae hyn yn cynnwys pwerau newydd dros agweddau o'i drefniadau mewnol ac etholiadol.

Gan weithredu ar ran y sefydliad, mae'r Comisiwn yn arwain rhaglen o ddiwygio trefniadau'r Cynulliad i ystyried y ffordd o ran o ddefnyddio'r pwerau hyn i helpu

i'w wneud yn ddeddfwrfa gryfach, mwy hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Er mwyn sicrhau bod unrhyw gynigion deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno gan y Comisiwn yn seiliedig ar gyngor cadarn, annibynnol sy'n ddiduedd yn wleidyddol, sefydlodd y Llywydd Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i adolygu'r dystiolaeth a gwneud argymhellion iddi hi a'r Comisiwn, a oedd yn cael ei gadeirio gan yr Athro Laura McAllister CBE.

Adroddodd y Panel ym mis Rhagfyr 2017, gan wneud 16 o argymhellion ar gyfer diwygio'r Cynulliad a'i drefniadau etholiadol. Ym mis Chwefror 2018, cefnogodd y Cynulliad yn unfrydol benderfyniad y Comisiwn i ymgynghori â'r cyhoedd ar argymhellion y Panel a chynigion eraill ar gyfer diwygio'r Cynulliad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2018.

Ar sail canfyddiadau'r ymgynghoriad a thrafodaethau gwleidyddol, ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Llywydd fod y Comisiwn wedi penderfynu dilyn strategaeth ddeddfwriaethol dau gam. Bydd y cam cyntaf yn cynnwys, ymysg diwygiadau eraill, deddfu yn 2019 i leihau'r isafswm oed pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16 oed, yn weithredol o 2021, a newid enw'r sefydliad i Senedd Cymru / Welsh Parliament. Bydd y Comisiwn yn gofyn am fandad gan y Cynulliad cyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth. Bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol yn cynnwys amcangyfrifon cadarn o oblygiadau ariannol a goblygiadau eraill unrhyw newidiadau i'r Comisiwn a rhanddeiliaid eraill.

Bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol yn cynnwys amcangyfrifon cadarn o oblygiadau ariannol a goblygiadau eraill unrhyw newidiadau i'r Comisiwn a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys amcangyfrifon o pryd mae'n debygol y bydd unrhyw gostau neu arbedion yn digwydd.

Rhagwelir y bydd y costau o weithredu newid yn enw'r Cynulliad yn digwydd yn 2019-20 a 2020-21, yn amodol ar basio Bil gan y Cynulliad. Er mwyn lleihau'r costau posibl o newid enw'r sefydliad, mae'r Comisiwn yn bwriadu newid enw'r Cynulliad yn unig, a pheidio ailfrandio'n llwyr na newid y logo. Tan y bydd deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad yn weithredol, bydd y sefydliad yn parhau i gael ei alw wrth ei enw statudol presennol, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn osgoi dryswch ac i leihau costau ac anghyfleustra.

Roedd datganiad y Llywydd ym mis Gorffennaf 2018 yn nodi er bod cefnogaeth ddigonol o blaid cynyddu nifer Aelodau’r Cynulliad, nid oes consensws eto o ran y system bleidleisio y dylid ei defnyddio i ethol Aelodau i’r sefydliad mwy o faint. Felly, mae'r Comisiwn wedi penderfynu caniatáu amser i'r trafodaethau hynny

barhau dros y misoedd nesaf cyn dychwelyd i benderfynu ar ail gam posibl ei raglen diwygio deddfwriaethol.

Bydd y rhan fwyaf o waith cwmpasu a datblygu y cynigion deddfwriaethol yn cael eu gwneud gan ailflaenoriaethu adnoddau staff y Comisiwn. Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd wedi cytuno i rannu adnoddau â Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r cam cyntaf, er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion, gan fod y polisi yn orgyffwrdd rhwng Bil Comisiwn y Cynulliad a'r Bil Llywodraeth Leol. Mae diwygio system etholiadol y Cynulliad yn faes polisi technegol iawn sy'n gofyn am arbenigedd a chapasiti ychwanegol am gyfnod byr. Mae arbenigedd ar ddrafftio deddfwriaethol arbenigol wedi'i sicrhau, gyda chostau o bosibl yn disgyn yn 2019-20 a 2020-21 (yn amodol ar gwmpas terfynol y diwygiadau deddfwriaethol). Gallai rhai costau ychwanegol godi hefyd yn y blynyddoedd ariannol hyn i hwyluso mynediad i gyngor polisi arbenigol ar faterion technegol.

## Capasiti a Blaenoriaethu

Ers 2007, bu twf graddol yn sefydliad y Comisiwn (cyfanswm y swyddi), er mwyn diwallu anghenion cynyddol y Cynulliad a'i Aelodau ac yn unol â'r pwerau a chyfrifoldebau ehangach. Mae'r Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Cynulliad ei hun yn craffu ar y twf hwn yn drylwyr bob blwyddyn.

Ym mis Medi 2017, gofynnodd y Comisiwn i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru arwain adolygiad o strwythur a phrosesau'r Cynulliad er mwyn deall sut y caiff adnoddau eu dyrannu ar hyn o bryd yn y sefydliad ac i werthuso a yw hyn yn defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o gam cyntaf yr adolygiad capasiti oedd:

- Cytundeb ar flaenoriaethau'r Comisiwn;
- Cynllunio a darparu yn well;
- Mwy o ystwythder o ran capasiti a gallu;
- Datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y mae'r Comisiwn yn ei wneud a beth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl.

Ar ôl i'r Comisiwn ystyried a chymeradwyo canfyddiadau cychwynnol yr Adolygiad Capasiti, sefydlwyd Grŵp Llywio i ddatblygu a chytuno ar gynigion i gyflawni gwelliannau mewn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sefydliadol.

Roedd ail gam y gwaith yn ystyried canfyddiadau cam un yn fanylach ac i ddatblygu dulliau i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol. Canfu adroddiad cam 2, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, a oedd yn cwblhau'r adolygiad capasiti, fod y Comisiwn mewn sefyllfa gref i wynebu'r heriau o'n blaenau. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu terfynol, a fydd yn cael ei gyflwyno dros y 18 mis nesaf.

Mae rhai o'r camau arwyddocaol a gymerwyd o ganlyniad i'r Adolygiad yn cynnwys:

- ymgysylltu'n ffurfiol â Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau a'r Pwyllgor Busnes ynghylch blaenoriaethu a rhagweld gwaith ac yn benodol cynllunio adnoddau ar gyfer Brexit;
- sicrhau aliniad gwell o wasanaeth a gwaith cynllunio capasiti gyda'r cylch cynllunio cyllideb, gan alluogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a chynllunio hirdymor mwy effeithiol;
- ailstrwythuro'r trefniadau'r bwrdd uwch reoli;
- Rydym wedi datblygu, profi a chyflwyno offeryn a phroses Blaenoriaethu Buddsoddiad yn seiliedig ar feini prawf, er mwyn cefnogi ein trefniadau gwneud penderfyniadau;
- cyflwyno newidiadau ar unwaith i bolisïau staffio er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd ynghylch dyrannu staff i fodloni gofynion yn y byrdymor;
- Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cymryd mwy o berchnogaeth dros gynllunio newid corfforaethol a rheoli risg, gan ddod, i bob pwrpas, yn Fwrdd Newid y Comisiwn
- cyhoeddi cyfres ddiwygiedig o flaenoriaethau corfforaethol a gwerthoedd sefydliadol
- nodi gwasanaethau i'w hadolygu er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

# 4. Cefnogi'r Cynulliad

Mae cyllideb 2019-20 wedi'i dylunio i sicrhau bod gan y Cynulliad adnoddau i gyflawni goblygiadau craffu Brexit, i weithredu'r model cadw pwerau newydd, ac uchelgeisiau deddfwriaethol y Comisiwn ei hun.

Mae'r prosiectau blaenoriaeth ar gyfer 2019-20 yn seiliedig ar flaenoriaethau sefydliadol y Comisiwn - darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf, cynyddu ymgysylltiad â phobl Cymru a defnyddio ein hadnoddau yn ddoeth.

Bydd y prosiectau a flaenoriaethir ar gyfer 2019-20 yn mynd i'r afael â'r heriau hyn a chynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni'r tri amcan strategol hyn.

## DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF

### Deddfwriaeth

Mae cefnogi deddfwriaeth yn dasg arbenigol a heriol iawn sy'n defnyddio arbenigedd o bob un o dimau'r Comisiwn, yn benodol clercio, ymchwil, cyfreithiol, cyfathrebu a chyfieithu.

Yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn y staff sy'n cefnogi'r broses ddeddfwriaethol, bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i'r feddalwedd deddfwriaethol bresennol a ddefnyddir gan gomisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

Mae meddalwedd deddfwriaethol yn hanfodol gan ei fod yn galluogi i gynhyrchu Biliau, gwelliannau a rhestrau gwelliannau o ansawdd uchel, hwyluso'r broses ddeddfwriaethol a darparu trefniadau busnes effeithlon. Heb y feddalwedd, byddai angen cynyddu nifer y staff er mwyn rheoli'r broses a/neu aildrefnu dyddiadau cau ar gyfer gwaith deddfwriaethol a bennir yn y Rheolau Sefydlog a'r amserlenni y mae'r Pwyllgor Busnes yn cytuno arnynt.

Gallai newidiadau a manteision gwelliannau i'r feddalwedd bresennol gynnwys:

- Arbedion o ran effeithlonrwydd, sy'n cefnogi pwyllgorau, y Swyddfa Gyflwyno a staff cyfieithu a chofnodi i symud mwy o'u hamser o dasgau prosesau astrus, fel fformatio gwelliannau â llaw, i dasgau â mwy o werth, fel drafftio a gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch;

- System fwy integredig sydd wedi'i halinio'n agos â chyrff allanol fel Llywodraeth Cymru, yr Archif Genedlaethol a deddfwrfeydd eraill;
- Proses gyhoeddi fwy di-dor i wneud Biliau, rhestrau gwelliannau a Deddfau ar gael mewn fformat data agored cyson o'r dechrau i'r diwedd; a
- Dileu'r angen am ymyriadau â llaw fel bod y system o ddechrau'r broses i'r diwedd yn fwy cydgysylltiedig;

Amcangyfrifir mai cost y gwelliannau hyn yw £200,000, a fyddai'n cael ei rannu'n gyfartal rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, dros y ddwy flynedd. Mae cyfraniad y Comisiwn wedi'i gynnwys fel £100,000 yn 2019-20 ac yn 2020-21.

## Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau

Mae'r Comisiwn yn darparu cymorth helaeth o safon wedi'i deilwra i'r Cyfarfod Llawn a phwyllgorau. Mae llawer o wasanaethau'r Comisiwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth hon gan gynnwys cymorth clercio, gweithdrefnol, ymchwil, cyfryngau a chyfreithiol; gwasanaethau diogelwch ac ymwelwyr, cyfieithu ar y pryd a chyfieithu testun; creu cofnod air am air; TG a darlledu.

Mae uchelgais y Llywydd, y Comisiwn a chadeiryddion pwyllgorau yn sylweddol – er enghraifft, galw cynyddol gan bwyllgorau am waith ymgysylltu ac allgymorth sy'n bwydo'n uniongyrchol i waith goruchwylio a chraffu deddfwriaethol a pholisi pwyllgorau; disgwyliadau llawer uwch o ran cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill.

Mae dau brosiect, sy'n canolbwyntio ar Ddeisebau a'r Cyfarfod Llawn, ar y gweill, wedi'u clustnodi i'w cwblhau yn ystod 2019-20.

Y system Ddeisebau yw'r ffordd fwyaf uniongyrchol y gall y cyhoedd godi eu pryderon, a chaiff ei ystyried fel llwybr pwysig i ymgysylltu â'r Cynulliad. Mae gwelliannau a wnaed i'r broses Ddeisebau gan seneddau eraill wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ymgysylltiad â'r cyhoedd, ac felly mae potensial mawr i system Ddeisebau newydd wneud yr un fath.

Nod y system Ddeisebau newydd yw darparu manteision sylweddol o ran ymgysylltu â'r cyhoedd:

- Gwelliannau ym mhrofiad Aelodau'r Pwyllgor Deisebau, yn ogystal ag Aelodau a'u staff cymorth yn ehangach, gan ei gwneud hi'n haws iddynt fod yn ymwybodol o faterion sydd o fudd y cyhoedd sy'n cael eu mynegi drwy'r system Ddeisebau; ac

- Effeithlonrwydd a rhyddhau amser staff, y gellid ei wireddu os caiff y datrysiad cywir ei gyflwyno.

Mae systemau'r Cyfarfod Llawn yn defnyddio allbynnau o systemau Cofnod y Trafodion a'r Swyddfa Gyflwyno. Mae prosiect y Cyfarfod Llawn yn edrych ar sut y gellid integreiddio'r systemau hynny ag effeithlonrwydd a wnaed mewn prosesau a chreu allbynnau gwell i Aelodau a'r cyhoedd.  Gallai hyn ryddhau llawer iawn o amser staff, sy'n cael ei dreulio ar hyn o bryd yn trosglwyddo data o systemau eraill, a chael gwared ar gamgymeriadau dynol.

Bydd y prosiect hefyd yn edrych ar swyddogaeth well er mwyn i Aelodau wneud cais i siarad yn y Cyfarfod Llawn, gan o bosibl adeiladu ar borth y Swyddfa Gyflwyno y mae Aelodau a'u staff yn defnyddio'n llwyddiannus.

## Ymgysylltu academaidd

Mae Strategaeth y Comisiwn ar gyfer 2016-2021 yn cynnwys ymrwymiad penodol i "ddefnyddio arbenigedd allanol lle y bo angen". Felly, datblygwyd strategaeth ymgysylltu academaidd yn 2016 i gefnogi gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth, a oedd yn cynnwys treialu ac yna gwerthuso amrywiaeth o fentrau ymgysylltu academaidd.

Erbyn hyn, rydym mewn sefyllfa gref i fwrw ymlaen â mentrau penodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn ein galluogi i gynnwys arbenigedd ychwanegol, sydd fel arfer yn benodol iawn, am gost isel i ategu gwybodaeth fwy cyffredinol ein staff ein hunain sy'n gorfod ymdrin â sawl maes polisi, gan gynnwys:

- **Cytundeb Fframwaith Brexit** sy'n mynd i'r afael yn benodol â'r maes penodol o gefnogaeth i waith sy'n gysylltiedig â Brexit. Mae'r Fframwaith yn caniatáu i ni gomisiynu, ar fyr rybudd, ddarnau o waith ar agweddau cymhleth a thechnegol ar Brexit, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiad proffesiynol Aelodau;

- Cyllid ar gyfer **cynllun Cymrodoriaeth academaidd** parhaus, gan adeiladu ar y cynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd yn 2017-18. Mae'r cynllun Cymrodoriaeth yn caniatáu i ni hwyluso'r gwaith o greu gwaith ymchwil academaidd amserol, perthnasol a defnyddiol y gellir eu defnyddio yn ymarferol fel sail ar gyfer dadl yn y Cynulliad ac yn allanol;

- Rhaglen o **leoliadau academaidd ac interniaethau** gyda'r Cynulliad, gan gynnwys y cynllun Interniaeth Polisi UKRI lle mae myfyrwyr PhD yn treulio 3 mis yn gweithio yn y Gwasanaeth Ymchwil.  Cafodd chwe myfyriwr eu

lleoli â ni drwy'r cynllun hwn yn 2018, ac rydym yn disgwyl nifer tebyg yn 2019;

- **Tudalennau newydd ar gyfer y wefan** yn cynnwys gwybodaeth am ymgysylltiad academaidd;
- Datblygiad pellach o **fentrau ategol eraill** fel gweithdai codi ymwybyddiaeth i academyddion ynghylch gwaith y Cynulliad.

## YMGYSYLLTU Â HOLL BOBL CYMRU A HYRWYDDO'R CYNULLIAD

Blaenoriaethau ymgysylltu'r Llywydd ar gyfer y Pumed Cynulliad sy'n cynnwys datblygu ein gwasanaethau ymgysylltu ar-lein, sefydlu Senedd Ieuenctid, datblygu archif Cynulliad; a'r uchelgeisiau a ddisgrifiwyd yn strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Comisiwn (Ionawr 2017). Mae ysgogiad ac argymhellion penodol pellach wedi'u hychwanegu gan **adroddiad y Tasglu Gwybodaeth a Newyddion Digidol.**

### Gwybodaeth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r Cynulliad yn dathlu 20 mlynedd ers ei sefydlu yn 2019. Roedd y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol yn argymell bod

> "yr ugain mlwyddiant ym mis Mai 2019 ers sefydlu'r Cynulliad yn cael lle canolog mewn ymgyrch i hyrwyddo straeon datganoli ac yn argymell i'r Llywydd y dylai ystyried trefnu Gŵyl Ddemocratiaeth Cymru i gyd-fynd â'r ugain mlwyddiant hwnnw".

Ym mis Mehefin 2018, cytunodd y Comisiwn i nodi'r achlysur drwy hyrwyddo ei waith, llwyddiannau a hanes yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 6 Mai 2019. Cytunodd y Comisiwn hefyd i gynnal gŵyl ddemocratiaeth bedwar diwrnod fel prif eitem y dathliad i gynnwys darlithoedd, digwyddiadau a gweithgareddau gyda pherfformiadau sy'n debygol o ddigwydd ar ddechrau tymor yr hydref ac fe fydd yn cael ei chynnal ledled Cymru. Bydd yr ŵyl yn ymgysylltu, difyrru a hysbysu amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan adlewyrchu bywyd, diwylliant a rhagoriaeth Cymru gyfoes. Bydd hefyd yn darparu lle i ddinasyddion, grwpiau dinesig, elusennau, gweithredwyr cymunedol, ac Aelodau i drafod a rhannu syniadau am fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol allweddol.

Daeth y Comisiwn i gasgliad o ran ei ymateb i Argymhellion y Tasglu ym mis Rhagfyr 2017. Cytunodd i fuddsoddi mewn dulliau gwrando ac offer cymdeithasol a Senedd TV. Cytunodd hefyd i ddilyn opsiwn o ymchwilio i wasanaeth gwifren newyddion presennol i gynyddu maint allbwn newyddion dynodedig y Cynulliad.

Y cynnig yw cynnal y gwasanaeth fel peilot am ddeuddeg mis yn amodol ar achos busnes llawn.

## Gwefan

Argymhellodd y Tasglu Digidol ein bod yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu gwefan newydd i'r Cynulliad. Mae gwefan a dulliau rheoli cynnwys sy'n perfformio'n uchel yn hollbwysig i lwyddiant y Cynulliad ac mae angen gwelliannau sylfaenol ar frys i'n dulliau presennol

Mae gwefan a dulliau rheoli cynnwys yn chwarae rôl hanfodol o ran cyflawni ein hamcanion strategol, yn arbennig 'Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad'.

Mae bwlch sylweddol rhwng ein perfformiad presennol ac anghenion ein defnyddwyr, argymhellion ein harbenigwyr annibynnol (yn fwy diweddar y Tasglu Gwybodaeth a Newyddion Digidol), a'n gallu i gyflawni ein hamcanion strategol.

Mae angen gwelliannau sylfaenol, gan gynnwys:

- Ailstrwythuro ac ailddylunio ein gwefan er mwyn ei gwneud yn haws ei defnyddio, yn haws chwilio drwyddi, ac yn gyflym ac yn gywir wrth chwilio drwyddi.
- Integreiddio ein gwefan â ffyrdd eraill o gael mynediad i'r Cynulliad ar-lein, fel y gellir cael gafael ar yr holl gynnwys perthnasol yn hawdd mewn un lle;
- Cyflwyno ffordd llawer mwy effeithlon ac effeithiol o greu a chyhoeddi cynnwys sy'n berthnasol ac sy'n ymgysylltu â holl bobl Cymru.

Mae prosiect i gyflawni'r gwelliannau hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rydym wedi profi anghenion defnyddwyr, wedi drafftio gofynion ac ar y trywydd iawn i gyflwyno profiad gwefan newydd ar gyfer 2020-21.

# DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH

## Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau

Mae'r tîm EFM wedi datblygu cynllun gwaith 10 mlynedd i ddangos natur ac amseru y gwaith sydd angen ei wneud i gynnal a chadw ystâd y Cynulliad. Darperir cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol fel rhan o'r gyllideb gwasanaeth blynyddol ar gyfer EFM. Fodd bynnag, mae gwaith a phrosiectau ychwanegol yn codi bob blwyddyn sy'n amodol ar achosion busnes er mwyn gwneud cais am gyllid.

Bydd y ffocws ar gyfer rheoli'r ystâd yn effeithiol fel ased allweddol yn parhau i gael ei gyfarwyddo gan y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun prosiect blaenoriaeth (treigl) hirdymor ar gyfer yr ystâd. Bydd y rhain yn cynnwys nifer o eitemau newydd a rhai yn cael eu hadnewyddu ar gyfer systemau sy'n agosáu at ddiwedd eu bywyd gweithredol fel lifft, golau, rheoli mynediad i'r ystâd a'n seilwaith trydanol. Mae blaenoriaethau eraill yn cynnwys boeleri newydd a fydd, yn ogystal â darparu systemau mwy dibynadwy, yn darparu gwres ynni effeithlon ac effeithiol a fydd yn cyfrannu at ein hamcanion cynaliadwyedd.

- **Atgyweiriadau Hanfodol a Newidiadau i Atriwm Tŷ Hywel**
  Mae angen cyllid yn ystod 2019-20 i wneud y prosiectau hyn: ailosod gwydr er mwyn cael gwared ar ddarnau sy'n gollwng dŵr, newid y goleuadau i LED, gosod system ar gyfer gweithio'n ddiogel ar uchder ar gyfer gwaith cynnal a chadw a glanhau metel yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio ers 2017-18.

- **Ffenestri**
  Mae arolygon blaenorol wedi nodi cyflwr a pherfformiad gwael y ffenestri 25 oed yn Nhŷ Hywel, ac mae ailosod ffenestri wedi'i gynnwys ar y gofrestr cynnal a chadw. Mae arolygon thermograffig diweddar hefyd wedi tynnu sylw at berfformiad thermol gwael y ffenestri. Mae gan nifer gynyddol o ffenestri ddiffygion ac ni ellir cael rhannau newydd i wneud gwaith atgyweirio mwyach. Mae'r lefel gynyddol o ddiffygion a methiannau a brofwyd ynghyd â pherfformiad sy'n gwaethygu wedi tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r materion hyn a datblygu a blaenoriaethu rhaglen fesul cam ar gyfer gosod ffenestri newydd dros y tair i bum mlynedd nesaf.

- **Boeleri**
  Mae'r boeleri presennol wedi mynd heibio eu hoes weithredol ac rydym yn profi methiannau gyda nhw. Mae'n dod yn fwy heriol i allu eu cadw i weithio drwy atgyweiriadau adweithiol ac mae'n cymryd mwy o amser i ddod o hyd i rannau ar eu cyfer. Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio o flynyddoedd ariannol blaenorol.

- **Ailosod Drysau Tân - Cam 1**
  Yn dilyn asesiadau risg tân diweddar ac archwiliadau o'r adeilad, nodwyd bod angen ailosod nifer o ddrysau tân yn Nhŷ Hywel, a datblygwyd rhaglen fesul cam i gwblhau'r gwaith hwn dros y tair blynedd nesaf.

## TGCh

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gynnal lefel briodol o fuddsoddiad mewn gwasanaethau TGCh a Darlledu er mwyn sicrhau bod systemau critigol, sy'n hanfodol er mwyn i'r Cynulliad weithio'n effeithiol ac effeithlon, eu cefnogi a'u datblygu. Mae'r Comisiwn eisoes wedi datblygu cynllun buddsoddi tair blynedd ar gyfer TGCh, sy'n nodi anghenion strategol a gweithredol ar gyfer buddsoddiad ac mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniadau hysbys o ran blaenoriaethau. Mae prosiectau blaenoriaeth ar gyfer 2019-20 yn cynnwys:

- **Adnewyddu Seilwaith**
  Mae'r prosiect hwn yn cwmpasu'r eitemau o offer sydd ar y safle (yn hytrach nag yn y cwmwl). Mae hyn yn cynnwys cyfarpar rhwydwaith a systemau arbenigol i gefnogi mynediad i'r rhyngrwyd.

- **Seiber-ddiogelwch**
  Mae'r Comisiwn wedi cydnabod yr angen cynyddol i fuddsoddi mewn seiber-ddiogelwch gan gynnwys profion bregusrwydd gwell. Drwy hyfforddiant, byddwn yn cryfhau ein hamddiffynfeydd ymhellach yn erbyn agweddau mwy dynol y bygythiad, megis peirianneg gymdeithasol.

## Llais i Destun

Ystyriwyd meddalwedd llais i destun yn flaenorol yn ein hadolygiad o Gofnod y Trafodion yn 2015. Roedd y feddalwedd bryd hynny yn newydd iawn a dim ond nifer gyfyngedig o enghreifftiau o'r dechnoleg yr oeddem wedi'u gweld yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau seneddol. Felly, gwrthododd Comisiwn y Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad yr opsiwn hwn yn ystod yr adolygiad, a phenderfynwyd i barhau i adolygu datblygiadau. Ers hynny, rydym wedi gweld rhai enghreifftiau o sut mae hyn yn dechrau dod i'r amlwg fel datrysiad cost effeithiol i ddarparu drafft o'r testun y gellir ei adolygu'n gyflym i'w gyhoeddi. Mae'r dechneg hon yn cael ei

defnyddio mewn rhai seneddau y tu allan i'r DU, er enghraifft yn Siambr y Dirprwyon yn yr Eidal. Rydym wedi cychwyn ar brosiect ac wedi gwahodd cwmnïau i ddechrau arddangos eu cynnyrch i ni er mwyn i ni allu canfod:

- Sut mae'r dechnoleg wedi datblygu
- Yr opsiynau a fydd ar gael
- Y costau
- Yr arbedion staff y gellid eu gwneud

Er bod y gwaith cwmpasu yn gynnar iawn yn y broses, gallai fod achos busnes dros gyflwyno datrysiad meddalwedd er mwyn galluogi'r Cofnod i gael ei gynhyrchu yn fwy cyflym ac yn fwy effeithlon.

# Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol

## Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ACARAC) yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau yn ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Fel rhan o'i rôl, mae ganddo ddiddordeb cryf mewn amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwylio.

Mae ACARAC yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol ac mae hefyd yn cymryd diddordeb brwd wrth archwilio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwylio a herio'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethu.

Mae Archwilio Allanol a Mewnol yn darparu ffynonellau pwysig o sicrwydd i ACARAC a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW) yw archwilydd allanol y Comisiwn ac fe gaiff gymorth yn ei waith gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 cyhoeddodd yr AGW farn ddiamod ar y datganiadau ariannol ac ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn yr Archwiliad o Adroddiad Datganiadau Ariannol neu'r Llythyr Rheoli a gwblhawyd gan dîm ymgysylltu SAC.

Yn dilyn adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Comisiwn, mae dau Fwrdd newydd wedi'u creu i ddisodli'r hen Fwrdd Rheoli a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Y Bwrdd Gweithredol newydd sy'n gosod blaenoriaethau gweithredol yn seiliedig ar strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn monitro'r gyllideb, yn cytuno ar flaenoriaethau buddsoddi a blaenoriaethau o ran adnoddau, yn goruchwylio risgiau corfforaethol ac yn goruchwylio rheoli newid. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn rhoi eu cyfrifoldebau rheoli llinell o'r neilltu ac yn cymryd rhan, gyda chylch gorchwyl i weithredu er budd y sefydliad cyfan.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth newydd wedi datblygu ei rôl yn creu syniadau ac yn darparu her adeiladol. Atgyfnerthwyd ei rôl fel fforwm ar gyfer rhannu a lledaenu gwybodaeth. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cynnal ymarferion cynllunio senario ac yn dadansoddi opsiynau, ac mae'n cefnogi'r Bwrdd Gweithredol drwy gynnal ymarfer blaenoriaethu cam cyntaf ar yr holl fuddsoddiadau arfaethedig. Mae aelodaeth y Tîm Arweinyddiaeth wedi ei ehangu ac mae bellach yn cynnwys pob

Pennaeth Gwasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn parhau i ddod i'r cyfarfodydd, ond mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan un o'i aelodau yn eu tro.

Mae'r trefniadau newydd yn cyflwyno mwy o ddealltwriaeth ynghylch yr hyn sydd ar y gorwel, gan ein galluogi i gynllunio a chyllidebu yn fwy effeithiol a sicrhau bod y pynciau priodol yn cael sylw ar yr amser iawn. Cyflwynwyd blaenraglen waith wedi'i chydlynu. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn herio cynigion ac yn llywio'r Bwrdd Gweithredol cyn i'r Bwrdd wneud ei benderfyniadau terfynol.

Canfuwyd fod y systemau, rheolaethau a gweithdrefnau ariannol sy'n cefnogi'r gwaith o gynhyrchu cyfrifon yn gadarn a bod y polisïau cyfrifyddu wedi'u dilyn a'u cymhwyso'n briodol sy'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar y gwaith a wnaed gan y Tîm Gwasanaethau Ariannol. Mae cryfder yr amgylchedd rheoli mewnol ariannol i'w weld ymhellach gan y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Yn y cyfnod hwn, mae'r Rheolaethau Ariannol Allweddol a'r gwaith o weinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu harchwilio. Ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd ar unwaith, ac ni nodwyd unrhyw argymhellion yn ystod archwiliad o'r Cynllun Pensiwn. Bydd rheolaeth gyllidebol yn cael ei harchwilio yn ystod mis Tachwedd 2018.

Mae'r tîm Gwasanaethau Ariannol yn gweithio i sicrhau eu bod yn cyflawni nifer o dargedau ac yn adrodd ar eu perfformiad fel rhan o Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad. Mae'r targedau hyn yn ffordd o ganolbwyntio a sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod ymgysylltiad yn cael ei gynnal rhwng y tîm cyllid canolog a'r sefydliad ehangach. Mae'r tîm wedi llwyddo yn gyson i gyflawni'r targedau ar feysydd talu cyflenwyr ac Aelodau a chyflawni targedau arbedion gwerth am arian. Caiff y targedau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau yn heriol ac yn realistig a'u bod yn cael eu hail-raddnodi os bydd angen.

# 6. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

## Corff annibynnol yw'r Bwrdd Taliadau sy'n penderfynu ar gyflog a thaliadau Aelodau a'u staff a'r system o gymorth ariannol sydd ei angen ar Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae'r system yn darparu arian i dalu am dreuliau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu Ddeiliad Swydd, er enghraifft:

- rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a threuliau teithio eu staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i Aelodau y mae eu cartref o bellter sylweddol i ffwrdd (mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol);
- cymorth i'r Grwpiau Plaid ac ymchwil polisi.

Ar ddechrau'r Cynulliad hwn, y cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad oedd £64,000, sydd i gynyddu bob blwyddyn yn unol ag enillion cyfartalog yng Nghymru fel y mesurir yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Cynyddodd cyflogau Aelodau'r Cynulliad 2.1% yn 2017-18 a 2.3% yn 2018-19. Tybir bod cynnydd o 2.5% y flwyddyn yn gymwys am weddill y Cynulliad hwn. Telir cyflogau ychwanegol i Aelodau sydd â swyddi a chyfrifoldebau ychwanegol, fel Gweinidogion, y Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau.

Ar ddechrau'r Cynulliad, rhoddodd y Bwrdd Taliadau arian (hyd at £95,000 yr Aelod y flwyddyn) i Aelodau i gyflogi hyd at dri staff cyfwerth ag amser llawn i'w helpu ym mhob agwedd ar y swydd. Cynyddodd hyn 2.1% yn 2017-18 a 2.3% yn 2018-19. Tybir bod cynnydd o 2.5% y flwyddyn yn gymwys am weddill y Cynulliad hwn.

Adolygodd y Bwrdd Taliadau y cymorth a ddarperir i Aelodau yn ystod 2018-19 a gwnaeth y newidiadau canlynol yn dilyn ymgynghoriad ag Aelodau:

- caniatáu i'r Aelodau gyfrifo unrhyw Lwfans Staffio sy'n weddill yn ôl y gwir gost yn hytrach na'r gost uchaf posibl ynghyd â chymorth i bleidiau gwleidyddol;
- dileu'r cap o 111 awr ar gyfer staff a gyflogir yn barhaol;

- caniatáu i Aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'u Lwfans Costau Swyddfa i'w Lwfans Staffio a chael gwared ar y ddarpariaeth yn y Penderfyniad sy'n caniatáu ar gyfer trosglwyddo unrhyw arian newydd o Lwfans Staffio yr Aelod i'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol.

Y cyntaf o'r rhain sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar y defnydd o gyllideb y Penderfyniad. Ni fydd y tanwariant bellach yn ategu cronfa prosiect y Comisiwn ei hun ac ni fydd symiau nas defnyddir yn cael eu tynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Cyflwynir y newidiadau yn rhannol o fis Hydref 2018, ac fe'u cyflwynir yn llawn ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Hefyd, yn ddiweddar, ymgynghorodd y Bwrdd Taliadau ynghylch ymestyn hyblygrwydd tebyg i'r Lwfans Cymorth Plaid Wleidyddol. Nid yw'r Bwrdd wedi penderfynu'n derfynol ar y mater hwn eto, ond gellid tybio mai caniatáu i'r arian sy'n weddill o'r lwfans gael ei gyfrifo yn seiliedig ar y gost wirioneddol yn hytrach nag ar gyfanswm y gost fwyaf sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar y gyllideb.

Disgwylir i'r Bwrdd Taliadau gwblhau ei adolygiad o staff cymorth yn 2019, felly mae'n bosibl y bydd newidiadau eraill.

Amcangyfrifwyd cynnydd o 2.5% yng nghyllideb y staff cymorth ar gyfer 2019-20 er mwyn caniatáu ar gyfer cynnydd posibl dros yr hyn sy'n gymwys i gyflogau Aelodau ar gyfer unrhyw newidiadau posibl eraill a wneir i'r Bwrdd Taliadau o ganlyniad i'w hadolygiad.

Mae cyflogau Aelodau a'r dull ar gyfer unrhyw godiad cyflog wedi'u pennu ar gyfer gweddill pum mlynedd y Cynulliad hwn.  Bydd y Bwrdd yn adolygu elfennau eraill o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Caiff cyllideb Costau Swyddfa ei hadolygu'n flynyddol a'i haddasu yn ôl yr angen. Er mwyn darparu ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae codiad cyflog yn unol â chwyddiant ond wedi'i dybio.

Dangosir y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer gweddill blynyddoedd y Pumed Cynulliad a blwyddyn gyntaf y Chweched Cynulliad yn Nhabl 9.

# 7. Cwmpas y Gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Cynulliad i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2019-20, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 1

***Tabl 1: Cyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2019-20 yn erbyn gofynion***

| Gofynion Comisiwn y Cynulliad | 2019-20 £'000 |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru; hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | £57,023<br>Tabl 3 |
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;<br>o waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Cynulliad | £220<br>Tabl 8 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill | £53,623<br>Tabl 3 |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

***Tabl 2: Trosolwg o'r gyllideb***

| Pennawd y Gyllideb | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Cysylltiedig y Comisiwn** | | | | |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4) | £23,401 | £23,784 | £24,384 | £25,019 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau (Tabl 5) | £7,526 | £7,525 | £7,525 | £7,525 |
| Costau TGCh (Tabl 6) | £2,044 | £2,220 | £2,220 | £2,220 |
| Costau eraill (Tabl 7) | £2,316 | £2,267 | £2,267 | £2,267 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **£35,287** | **£35,796** | **£36,396** | **£37,031** |
| Cyfanswm Incwm (Tabl 8) | (£300) | (£220) | (£220) | (£220) |
| Gwariant Cyfalaf - creu asedau sefydlog | £500 | £500 | £500 | £500 |
| **Cyfanswm yr Adnodd Gweithredol** | **£35,487** | **£36,076** | **£36,676** | **£37,311** |
| Cronfa Prosiect | £0 | £1,000 | £1,015 | £1,035 |
| **Gwariant Cysylltiedig y Comisiwn ac eithrio Dibrisiant** | **£35,487** | **£37,076** | **£37,691** | **£38,346** |
| Costau dibrisiant ac amorteiddiad | £2,400 | £2,250 | £2,250 | £2,250 |
| Cyfanswm Gwariant Cysylltiedig y Comisiwn | £37,887 | £39,326 | £39,941 | £40,596 |
| **Gwariant Cysylltiedig Aelodau** | | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig (Tabl 9) | £16,201 | £16,197 | £16,598 | £16,511 |
| Gwariant yn ymwneud ag etholiadau | £0 | £0 | £500 | £2,500 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | £2,000 | £1,500 | £1,500 | £1,500 |
| **Cyfanswm Gwariant Cysylltiedig Aelodau** | **£18,201** | **£17,697** | **£18,598** | **£20,511** |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | **£56,088** | **£57,023** | **£58,539** | **£61,107** |

***Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd i'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru***

| **Gofyniad Arian Parod Net** | **2019-20 £'000** |
|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £16,197 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £38,826 |
| Gofyniad cyfalaf net | £500 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £1,500 |
| **Is-gyfanswm** | **£57,023** |
| **Addasiadau** | |
| Dibrisiant | (£2,250) |
| Newidiadau yn y ddarpariaeth | (£1,500) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | £350 |
| **Is-gyfanswm** | **(£3,400)** |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **£53,623** |

# Atodiad 2: Manylion y Gyllideb

***Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig***

| | 2018-19 £000 | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu Staff (gan gynnwys dyfarniad cyflog) | £23,401 | £24,284 | £24,884 | £25,519 |
| Swyddi Gwag / Trosiant staff | £0 | (£500) | (£500) | (£500) |
| **Cyfanswm** | **£23,401** | **£23,784** | **£24,384** | **£25,019** |

***Tabl 5: Dadansoddiad o Gostau Adeiladau a Chyfleusterau***

| | 2018-19 £000 | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhent a chyfraddau yn cynnwys parcio ceir | £4,291 | £4,265 | £4,265 | £4,265 |
| Gofalu a gwaith | £972 | £980 | £980 | £980 |
| Diogelwch | £694 | £691 | £691 | £691 |
| Cyfleustodau | £548 | £550 | £550 | £550 |
| Glanhau | £472 | £488 | £488 | £488 |
| Arlwyo | £334 | £346 | £346 | £346 |
| Rhentu llungopiwyr | £155 | £145 | £145 | £145 |
| Dodrefn a gosodiadau | £60 | £60 | £60 | £60 |
| **Cyfanswm** | **£7,526** | **£7,525** | **£7,525** | **£7,525** |

***Tabl 6: Dadansoddiad o Gostau TGCh***

| | 2018-19 £000 | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau ar gontract allanol, gan gynnwys ffôn | £638 | £528 | £528 | £528 |
| Darlledu | £496 | £580 | £580 | £580 |
| Trwyddedu a chynnal a chadw | £660 | £1,012 | £1,012 | £1,012 |
| Refeniw a defnyddiau traul | £250 | £100 | £100 | £100 |
| **Cyfanswm** | **£2,044** | **£2,220** | **£2,220** | **£2,220** |

***Tabl 7: Dadansoddiad o Gostau Eraill***

| | 2018-19 £000 | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddi a datblygu | £400 | £344 | £344 | £344 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | £313 | £311 | £311 | £311 |
| Gwasanaethau iaith ar gontract allanol | £293 | £260 | £260 | £260 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a thâl postio | £263 | £242 | £242 | £242 |
| Costau eraill Adnoddau Dynol | £123 | £153 | £153 | £153 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | £162 | £144 | £144 | £144 |
| Cyhoeddiadau | £120 | £127 | £127 | £127 |
| Teithio a chynhaliaeth arall | £104 | £115 | £115 | £115 |
| Yswiriant a chostau cyfreithiol | £115 | £113 | £113 | £113 |
| Archwilio | £82 | £75 | £75 | £75 |
| Costau cysylltiedig y Bwrdd Taliadau | £62 | £62 | £62 | £62 |
| Lletygarwch | £39 | £48 | £48 | £48 |
| Cyngor arbenigol | £45 | £48 | £48 | £48 |
| Ymgysylltu academaidd | £0 | £40 | £40 | £40 |
| Cyfrifyddu a gwasanaeth ariannol | £44 | £36 | £36 | £36 |
| Ymgynghori | £25 | £30 | £30 | £30 |
| Fetio | £26 | £17 | £17 | £17 |
| Gwisgoedd a dillad | £20 | £15 | £15 | £15 |
| Eitemau eraill <£20k | £80 | £87 | £87 | £87 |
| **Cyfanswm** | **£2,316** | **£2,267** | **£2,267** | **£2,267** |

***Tabl 8: Dadansoddiad o 'Incwm'***

| | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthiant – Siop y Cynulliad | £15 | £30 | £20 | £20 |
| Incwm rhentu adeiladau | £50 | £60 | £50 | £50 |
| Incwm parcio ceir ac incwm arall | £235 | £130 | £150 | £150 |
| **Cyfanswm** | **£300** | **£220** | **£220** | **£220** |

***Tabl 9: Dadansoddiad 'Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig'***

| | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau a chostau parhaus Aelodau'r Cynulliad | £6,140 | £6,320 | £6,478 | £6,640 |
| Cyflogau a chostau parhaus Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | £8,365 | £8,568 | £8,781 | £9,000 |
| Lwfans a Chostau Swyddfa | £1,696 | £1,809 | £1,839 | £1,871 |
| Swyddi Gwag / Trosiant Staff | £0 | (£500) | (£500) | (£1,000) |
| **Cyfanswm** | **£16,201** | **£16,197** | **£16,598** | **£16,511** |

# Atodiad 3: Prosiectau Blaenoriaeth

***Tabl 10: Crynodeb o amcangyfrif o gyllid a ryddhawyd ar gyfer 2019-20 a phrosiectau blaenoriaeth y Comisiwn ar gyfer 2019-20***

| **Cronfa Prosiect 2019-20** | **£'000** |
|---|---|
| Cyllideb Cyfalaf | £500 |
| Cronfa prosiect y Comisiwn | £1,000 |
| Cyfanswm y gronfa prosiect | £1,500 |

| **Blaenoriaethau Buddsoddi y Comisiwn 2019-20:** | | **£'000** |
|---|---|---|
| **DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF** | | **£185** |
| Legislative Workbench | £100 | |
| Prosiectau'r Cyfarfod Llawn a Deisebau | £60 | |
| Newid Enw | £25 | |
| **YMGYSYLLTU Â HOLL BOBL CYMRU A HYRWYDDO'R CYNULLIAD** | | **£400** |
| Gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd | £125 | |
| Gwefan | £275 | |
| **DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH** | | **£915** |
| Gwariant Blaenoriaeth Ystadau | | |
| ▪ Atgyweirio seilwaith - Atriwm | £65 | |
| ▪ Gosod ffenestri newydd - Cam 1 | £345 | |
| ▪ Boeleri | £295 | |
| ▪ Gosod drysau tân a ffenestri newydd - Cam 1 | £80 | |
| Gwariant Blaenoriaeth TGCh | | |
| ▪ Adnewyddu seilwaith | £50 | |
| ▪ Seiber-ddiogelwch | £30 | |
| Prosiect Llais i Destun | £50 | |
| **Blaenoriaethau Buddsoddi 2019-20** | | **£1,500** |

# Atodiad 4: Geirfa

**Asedau Sefydlog**

Eitemau a brynir sydd ag oes ddisgwyliedig sy'n hwy na blwyddyn at fudd busnes, fel tir, adeiladau a chyfarpar.

**Bil y Cynulliad**

Cynigion ar gyfer deddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad a fyddent, os cânt eu derbyn, yn dod yn Ddeddfau'r Cynulliad

**Bloc Cymru**

Arian bloc grant a gyfrifir gan ddefnyddio Fformiwla Barnett, y mae'r Senedd yn pleidleisio arno i'w roi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer yr arian a ddaw i Gymru.

**Costau Refeniw / Rhedeg**

Y gwariant presennol ar gostau rhedeg dyddiol, fel cyflogau staff a phrynu cynnyrch treuliadwy a gwasanaethau.

**Cronfa Gyfunol Cymru**

Crëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n gyfrif banc niwtral a gedwir gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Dyma'r cyfrif y mae'r arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno yn cael ei dalu i mewn iddo i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Cyfalaf**

Gwariant sydd fel arfer yn arwain at ased sefydlog (e.e. adeilad, cyfarpar neu dir) y bwriedir iddynt fod o fudd i gyfnodau cyfrifo yn y dyfodol, neu wariant sy'n cynyddu capasiti, economi, effeithlonrwydd neu oes ased sefydlog sy'n bodoli eisoes.

**Cyllideb**

Mae'n pennu'r adnoddau a'r arian parod y cynigir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ddilynol a'r ffigurau mynegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol wedi hynny.

**Darpariaethau**

Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth nad oes amserlen na swm penodol iddi. Caiff cost ei chydnabod yng Nghyfrif Adnoddau'r Comisiwn pan fydd rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth hon, a phan y gellir rhoi rhagamcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

**Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol**

Un o'r prif ddatganiadau ariannol sy'n dangos yr adnoddau net ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.  Cyfeirir ato yn aml fel y Fantolen

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

Deddf Senedd y DU sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ei gwneud yn haws i bwerau pellach gael eu trosglwyddo iddo. Mae'r Ddeddf yn creu system lywodraethu sydd â gweithrediaeth ar wahân a ddaw o'r ddeddfwrfa ac sy'n atebol iddi.

**Dibrisiant**

Mesur o'r defnydd neu'r gorddefnydd o ased sefydlog, neu leihad yn ei oes ddefnyddiol.

**Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)**

Dull o gategoreiddio gwariant a gedwir ar gyfer eitemau llai disgwyliadwy ac sy'n anos eu rheoli. Dim ond at y diben y cafodd ei neilltuo y gellir ei ddyrannu.

**Gwerth am arian**

Y broses a ddefnyddir gan sefydliad ar gyfer gwerthuso ac asesu prosesau caffael, prosiectau a phrosesau mewn modd systematig i ennyn hyder ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, gochelgarwch, safon a gwerth, ac os llwyddwyd i osgoi camgymeriadau a gwastraff arall, a fernir ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

**Is-ddeddfwriaeth**

Deddfwriaeth a wneir gan Weinidogion gan ddefnyddio pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddfau Seneddol neu'r Cynulliad, fel arfer ar ffurf gorchmynion neu reoliadau

**Llawlyfr Adroddiadau Ariannol**

Y canllaw cyfrifo technegol ar gyfer paratoi datganiadau ariannol.

**Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

Esboniadau gan Lywodraeth Cymru o gynigion sydd wedi'u cynnwys mewn Biliau yn San Steffan a fyddai o fewn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad, ac felly y mae angen cydsyniad y Cynulliad arnynt.

**Termau real**

Gwerth y gwariant sydd wedi'i addasu ar sail chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n galluogi cymariaethau o'r gwariant ar draws blynyddoedd i gael eu gwneud heb yr ystumiad sy'n cael ei beri gan newidiadau mewn prisiau.

**Y Bwrdd Taliadau**

Y bwrdd annibynnol sy'n sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaeth o gynrychioli pobl Cymru, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a deddfu ar gyfer Cymru.

**Y Rheolau Sefydlog**

Y rheolau sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r Cynulliad, gan ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon